# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

## Cofnodion EUR(2) 06-06

### Dyddiad y cyfarfod: 12 Gorffennaf 2006
### Amser y cyfarfod: 9:00 – 12:10
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, Y Senedd, Bae Caerdydd

#### Aelodau Cynulliad yn bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Sandy Mewies (Cadeirydd) | Delyn |
| Nick Bourne | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Mike German | Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| Rhodri Morgan (Prif Weinidog) | Gorllewin Caerdydd |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Jane Davidson (Gweinidog Addysg) | Pontypridd (Eitem 6) |

#### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl swydd** |
|---|---|
| Gary Davies | Pennaeth Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Ifona Deeley | Pennaeth Cysylltiadau Allanol |
| Anna Daniel | Gwasanaeth ymchwil yr Aelodau |
| Neil Thomas | Pennaeth yr Is-adran Ewropeaidd a Rhyngwladol |

| | |
|---|---|
| Nia Lewis | Swyddog Polisi |

## Eraill yn bresennol

| Enw | Yn cynrychioli | Eitem ar yr agenda |
|---|---|---|
| Andy Klom | Pennaeth Swyddfa’r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru | Pob un |
| Robert Specterman | Trysorlys Ei Mawrhydi | 8 |
| Julian Farrel | Yr Adran Masnach a Diwydiant | 8 |
| Mik Woolley | Yr Adran Gwaith a Phensiynau | 8 |

## Gwasanaeth Pwyllgor

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc |
| Leanne Hatcher | Dirprwy Glerc |

## Eitem 1: Cyflwyno, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiant

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Ieuan Wyn Jones AC, Jonathan Evans ASE, Glenys Kinnock ASE, Eluned Morgan ASE, Jill Evans ASE a Rose D’Sa.

1.2 Dirprwyodd Janet Davies AC dros Ieuan Wyn Jones AC.

1.3 Ni ddatganwyd buddiant.

1.4 Mae cofnod gair am air o’r cyfarfod ar gael.

## Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy’n codi

Papur: EUR(2) 05-06 – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 22 Mehefin
Papur: EUR(2) 06-06 – Camau heb eu cwblhau

2.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 22 Mehefin yn gofnod cywir.

2.2 Rhestr o’r camau sydd heb eu cwblhau: ni chafwyd sylwadau. Gofynnwyd i’r clerc fynd ar ôl y camau oedd heb eu cwblhau yn ystod toriad yr haf.

## Eitem 3: Adroddiad y Prif Weinidog

Papur: EUR(2) 06-06 (p.1)

3.1 Cyflwynodd y Prif Weinidog ei adroddiad.

Pwynt gweithredu:

- Cytunodd y Prif Weinidog i ddarparu gwybodaeth ffeithiol wrth ymateb i gwestiwn Mike German ynghylch y Map Ardaloedd a Gynorthwyir Arfaethedig, i ganiatáu i'r Aelodau ymateb i ymgynghoriad yr Adran Masnach a Diwydiant.

## Eitem 4: Addysg am yr UE yn aelod wladwriaethau eraill r UE

Papur: EUR(2) 06-06 (p.2)

4.1 Croesawodd y Pwyllgor y cyflwyniad.

Pwyntiau Gweithredu:

- Y Clerc i wahodd y Cyngor Prydeinig i roi tystiolaeth ar eu swyddogaeth wrth hybu deall materion Ewropeaidd yn well, yn ystod adolygiad polisi'r Cyngor.
- Y Clerc i ymchwilio i'r posibilrwydd y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol gynorthwyo wrth ledaenu cyhoeddiadau am yr UE a gynhyrchir gan y Comisiwn Ewropeaidd.

## Eitem 5: Cymru yn y Byd

Papur: EUR(2) 06-06 (p.3)

5.1 Clywodd y Pwyllgor y newyddion diweddaraf am weithgarwch Llywodraeth y Cynulliad o ran Cysylltiadau Allanol.

**Pwyntiau Gweithredu:**

- Cytunodd y Prif Weinidog i ddarparu adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor ar y mater hwn.
- Y Clerc i drefnu bod yr Aelodau'n derbyn copïau printiedig o adroddiad blynyddol diweddar y CPA fel papur i'w nodi yn y cyfarfod nesaf.
- Y Clerc i weld a fydd yr Aelodau'n datgan diddordeb mewn cael sesiwn friffio eto ar 'Ddelwedd a Dynodi Cymru'.

## Eitem 6: Jane Davidson AC, Y Gweinidog dros Addysg

Papur: EUR(2) 06-06 (p.4)

6.1 Clywodd y Pwyllgor y newyddion diweddaraf am ddatblygiadau ym maes addysg a dysgu gydol oes yn yr Undeb Ewropeaidd.

Pwyntiau Gweithredu:

- Cytunodd y Gweinidog dros Addysg i ddarparu Papur ar y tebygrwydd rhwng Fframwaith Cymwysterau Ewrop a Fframwaith Credydau a Chymwysterau Llywodraeth y Cynulliad.
- Cytunodd y Gweinidog dros Addysg i ddarparu esboniad ar ganlyniadau arolwg yr UE y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 3 o'i Phapur.
- Cytunodd y Gweinidog dros Addysg i ddarparu nodyn yn dangos faint o fyfyrwyr sydd ar hyn o bryd yn astudio ar gyfer Bagloriaeth Cymru.
- Cytunodd y Gweinidog dros Addysg i ddarparu nodyn ar y fenter ieithoedd tramor modern yn yr ysgolion cynradd.

### Eitem 7: Y newyddion diweddaraf gan Aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau

7.1 Nododd y Pwyllgor y newyddion a gafwyd ar lafar gan Janet Davies AC.

### Eitem 8: Strategaeth Lisbon

8.1 Derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ar Strategaeth Lisbon gan adrannau perthnasol Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Pwyntiau Gweithredu:

- Y Clerc i gylchredeg copi o fanylion am y cyfarfod i
- ran ddeiliaid, a gynhelir 24 Gorffennaf yn Llundain, ymhlith yr Aelodau – mae croeso i bob Aelod fynd yno.
- Cytunodd Robert Specterman ddarparu nodyn am y cyfarfod a darparu gwybodaeth am gyfarfodydd yn y dyfodol a gynhelir o bosibl yng Nghymru.

## Y Gwasanaeth Pwyllgor